

BETH YW'R GRONFA CEFNOGI ADFYWIO

Fel rhan o raglen Ffyniant Cyffredin DU, mae oddeutu £20m wedi ei glustnodi ar gyfer sir Gwynedd gyda peth o'r arian wedi ei ymrwymo ar gyfer sefydlu Cronfeydd ar gyfer cefnogi prosiectau yn y maes Adfywio.

Mae'r gronfa Adfywio Cymunedau yn cynnig 3 cynllun grant sef;

1. Grant bach cyfalaf neu refeniw (£10,000 - £25,000)
2. Grantiau Gweithredu Prosiectau Adfywio:
 - a) Refeniw yn unig (£25,001 - £75,000)
 - b) Cyfalaf a refeniw (£25,001 - £200,000)

Gallwn ystyried ceisiadau sydd yn;

- Annog cymunedau i gymryd rôl mwy rhagweithiol yn eu hardaloedd
- Adnabod ac ymateb i anghenion a blaenoriaethau y gymuned sydd wedi eu hadnabod o fewn cynllun ardal eich hardal
- Hybu buddsoddiad a datblygiad yr economi leol
- Gwella lleoliadau sy'n bwysig i gymunedau
- Cynyddu cyfleoedd gwaith, datblygiad sgiliau ymhlith unigolion o fewn cymunedau a hybu cyfle cyfartal i bawb

Mae'r mathau o brosiectau/eitemau y gellir eu hariannu yn cynnwys

- Cyllid ar gyfer gwelliannu/harddu canol terfi
- Offer neu welliannau i warchod asedau cymunedol a darparu gwasanaethau newydd
- Prosiectau gwella amgylchedd lleol
- Offer neu welliannau i warchod parciau, ardaloedd gwyrdd
- Swyddi newydd llawn neu ran amser. (Os ydych yn ymgeisio am gyfraniad tuag at gost swydd, bydd angen cyflwyno cynllun busnes i ddangos sut bydd y swydd neu'r gweithgaredd yn cael ei gynnal y tu hwnt i gyfnod y grant).
- Cynllun Busnes
- Aseiad Dichonoldeb
- Ffioedd proffesiynol

Math o eitemau dydd ddim yn gymwys:

- Costau cynnal a chadw offer ac adeiladau
- Costau cynnal gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli
- Cyflogau swyddi sydd eisoes yn bodoli'n barod
- Gweithgareddau sy'n cael eu cynnal y tu allan i ffiniau Gwynedd
- Ceisiadau gan unigolion neu geisiadau gan gwmnïau er elw i'w ddsbarthu i aelodau (ac eithrio mentrau cymdeithasol)

Sylwer mae enghreifftiau yn unig yw'r rhestr uchod, ac rydym yn eich hannog i gael golwg manwl ar y tabl ymyrraeth ac allbynnau ar y ddogfen canllaw manwl, sydd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y mathau o brosiectau gall y gronfa hwn ariannu.



CANLLAWIAU CYFFREDINOL CRONFA CEFNOGI ADFYWIO – SPF

**FFYNIANT
— BRO —**

Mae cyngor manwl ar sut i lenwi'r ffurflen gais ar y ddogfen 'Canllawiau Manwl Cronfa Cefnogi Adfywio'

PRYD DYLLID YMGEISIO I'R GRONFA

Dyddiad agor y cronfeydd yw **5ed o Fehefin 2023**

Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau i'r cronfeydd yw **5.00yh Gorffennaf 14 2023**

Byddwn yn anelu i asesu a chymeradwyo ceisiadau erbyn diwedd Awst 2023

Ni fydd yn bosib ariannu unrhyw weithgaredd sydd wedi cychwyn cyn bydd llythyr cynnig wedi ei arwyddo a'i ddychwelyd i swyddogion Cyngor Gwynedd

Ar hyn o bryd nid ydym yn rhagweld y byddwn yn agor ail rownd i ymgeisio ar gyfer y cronfeydd. Gall rownd ychwanegol gael ei gynnal pe bai'r galw yn y rownd gyntaf yn isel.

PWY SY'N CAEL YMGEISIO?

Mae'r cronfeydd yn agored i unrhyw sefydliad nid er elw, i ymgeisio am arian drwy'r gronfa, (ac eithrio mentrau cymdeithasol), ac sy'n cydymffurfio a'r canllawiau ymgeisio.

SUT MAE YMGEISIO?

Gellir gwneud cais i'r Gronfa Cefnogi Adfywio drwy lenwi'r ffurflen gais bwrpasol. Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau yn ofalus ac yn sicrhau bod eich cynllun yn ymateb i'w canllawiau a'r meini prawf.

Cyn cyflwyno eich cais rydym yn awyddus eich bod yn cysylltu gyda'ch Swyddog Cefnogi Cymunedau Lleol i drafod eich syniadau a'ch bwriadau. Fe fydd hyn yn eich galluogi i dderbyn cymorth pellach cyn cyflwyno eich cais. Fe fydd y swyddog yn gallu eich cynorthwyo i benderfynu beth sy'n gymwys ar gyfer eich cynllun. Mae manylion y swyddogion yn y tabl isod isod;

| ARDAL | ENW A MANYLION CYSWLLT SWYDDOG |
|---|--|
| Bro Ogwen Dalgyllch Bangor Dalgyllch Caernarfon | Dafydd Einion Jones dafyddeinionjones@gwynedd.llyw.cymru 01248 605276 |
| Bro Peris Dalgyllch Nantlle / Lleu Bro Ffestiniog | Mark Gahan 07901893006 markgahan@gwynedd.llyw.cymru |
| Dalgyllch Pwllheli Dalgyllch Pen Llŷn | Alys Lloyd Jones alyslloydjones@gwynedd.llyw.cymru 01758 704120 |
| Dalgyllch Porthmadog a Penrhyndeudraeth Dalgyllch Bala Penllyn | Lindsey Ellis lindseyellisedwards@gwynedd.llyw.cymru 07919 024 025 |
| Dalgyllch Dolgellau Bro Ardudwy Bro Dysynni | Anna Lewis annalewis@gwynedd.llyw.cymru 07500818300 |



**CANLLAWIAU CYFFREDINOL
CRONFA CEFNOGI ADFYWIO – SPF**

**FFYNIANT
— BRO —**

SUT I GYFLWYNO EICH CAIS

Unwaith y byddwch yn barod i gyflwyno eich cais, gallwch gyflwyno eich cais drwy e bost i cronfacefnogiadfywio@gwynedd.llyw.cymru

Cofiwch sicrhau eich bod hefyd yn cyflwyno y dogfennau atodol sydd wedi eu rhestru o fewn y canllawiau manwl gyda'ch cais. Ni fydd yn bosib prosesu ceisiadau anghyflawn.